| | |
|---|---|
| **Rhif trwydded:** | **GEN / WCA / 017 / 2023** |
| **Yn ddilys o :** | **$1^{af}$ Ionawr 2023** |
| **Dod i ben :** | **$31^{ain}$ Rhagfyr 2023** |

**DEDDF BYWYD GWYLLT A CHEFN GWLAD 1981 (DIWYGIWYD GAN DDEDDF DIOGELU'R AMGYLCHEDD 1990)**

**Trwydded i ddal llygon (Soricidae) at ddibenion gwyddonol neu addysgol**

Mae'r drwydded hon, wedi'i dyfarnu o dan Adran 16 (3) (a) o Ddeddf Bywyd Gwyllt a Chefn Gwlad 1981 (diwygiwyd gan Ddeddf Diogelu'r Amgylchedd 1990) gan Gorff Adnoddau Naturiol Cymru, a adwaenir hefyd fel Cyfoeth Naturiol Cymru, yn awdurdodi personau sydd â'r wybodaeth a'r profiad priodol neu bersonau sydd o dan oruchwyliaeth uniongyrchol y fath berson i:

1. ddal ar gyfer adnabod a rhyddhau ar unwaith drwy ddefnyddio trapiau dal yn fyw

   unrhyw rywogaeth o **lyg *(Soricidae)*** drwy gydol Cymru.

Mae'r drwydded hon yn ddilys am y cyfnod **a nodir uchod** ac yn cael ei dyfarnu yn ddarostyngedig i gydymffurfiad â'r amodau a ddynodir. Gall unrhyw beth arall a wneir nad yw'n unol ag amodau'r drwydded gael ei ystyried yn drosedd.

Arwyddwyd ar ran
**Cyfoeth Naturiol Cymru**

Ffôn/Tel: 03000 654974 / 03000 654921

Ebost/Email: trwyddedrhywogaeth@cyfoethnaturiolcymru.gov.uk or specieslicence@naturalresourceswales.gov.uk
www.cyfoethnaturiolcymru.gov.uk www.naturalresourceswales.gov.uk

Cyfoeth Naturiol Cymru / Natural Resources Wales, Maes y Ffynnon, Penrhosgarnedd, Bangor, Gwynedd, LL57 2DW

Croesewir gohebiaeth yn y Gymraeg a'r Saesneg Correspondence welcomed in Welsh and English

## AMODAU

**Diffiniadau**
Mae ‘CNC’ yn dalfyriad ar gyfer Corff Adnoddau Naturiol Cymru,  a adwaenir hefyd fel Cyfoeth Naturiol Cymru.
Mae' RhWE' yn dalfyriad ar gyfer rhywogaeth a warchodir gan Ewrop.
Mae 'cais am drwydded' yn cyfeirio at y ffurflen gais, datganiad o fethodoleg, ac unrhyw ddogfennau ategol (lle bo'n briodol).

97. Bydd pobl sy'n meddu ar y drwydded hon yn dilyn y methodoleg a roddir yn y 'Nodiadau ynglŷn â Thrapio Llygon' – gweler isod.  Mae'n rhaid cymryd pob cam ymarferol i atal marwolaethau damweiniol i lygon o ganlyniad i'w trapio.

98. O dan Adran 14 o Ddeddf Bywyd Gwyllt a Chefn Gwlad 1981 (fel y'i diwygiwyd), mae'n drosedd i ryddhau i'r gwyllt unrhyw anifail a gynhwysir yn Rhan 1 o Atodlen 9 Deddf 1981.  Mae'n rhaid peidio â rhyddhau i'r gwyllt na gadael dianc i'r gwyllt y rhywogaethau hynny a ystyrir i fod yn frodorol i Gymru: y  wiwer lwyd (*Sciurus carolinensis*) a'r minc Americanaidd (*Neovison vison*, a adwaenir hefyd fel *Mustela vison*).  Mae'n well os lladdir yr anifeiliaid hyn mewn modd cyflym a thrugarog cyn gynted ag sy'n bosibl yn ymarferol ar ôl eu darganfod.  Ceir rhyddhau'r anifeiliaid hyn dim ond o dan drwydded unigol a dderbynnir gan Gyfoeth Naturiol Cymru.

200. Wrth gymryd rhan mewn gweithgareddau o dan delerau'r drwydded hon, bydd y trwyddedai yn cludo copi o'r drwydded yn ei feddiant a bydd rhaid iddo ei dangos i unrhyw heddwas neu gyflogai CNC, neu i unrhyw berson a awdurdodir yn ysgrifenedig gan CNC, ar gais.

202. Mae'r gweithgareddau a drwyddedir drwy hyn wedi'u cyfyngu i'r trwyddedai ac asiantau a chynorthwywyr achrededig fel y nodir ar y drwydded hon.

203. Ni chaiff unrhyw asiant achrededig y trwyddedai weithredu o dan delerau'r drwydded hon oni bai ei fod yn meddu ar lythyr sy'n ei benodi fel asiant achrededig priodol y trwyddedai at ddibenion y drwydded hon. Bydd rhaid i'r asiant gludo'r llythyr hwn a chopi o'r drwydded hon yn ei feddiant a'u dangos i unrhyw heddwas neu gyflogai CNC, neu berson arall a awdurdodir yn ysgrifenedig gan CNC, ar gais.

204. Bydd rhaid i unrhyw gynorthwywyr a gyflogir o dan delerau'r drwydded hon, p'un ai wedi'u cyflogi i weithredu peirianwaith neu i roi cyngor, aros o dan oruchwyliaeth y trwyddedai neu unrhyw asiant achrededig bob amser.

205. Bydd rhaid i'r trwyddedai dderbyn cyfrifoldeb llawn ar gyfer ymddygiad unrhyw gynorthwywyr ac asiantau achrededig o dan delerau'r drwydded hon.

206. Cyfyngir y gweithgareddau a'r gweithrediadau a ddynodir drwy hyn i'r rhai a nodir ar y drwydded yn unig.

207. Bydd rhaid cadw unrhyw aflonyddu ar anifeiliaid i'r lefel leiaf posibl, fel na fydd anifeiliaid yn cael eu hatal rhag eu gweithgareddau bwydo a gorffwys arferol, na chael eu haflonyddu yn ystod eu tymor bridio neu aeafgysgu, oni bai bod caniatâd wedi cael ei roi gan CNC i wneud fel arall. Mae'n rhaid cymryd pob cam rhesymol i atal unrhyw rywogaeth a warchodir rhag cael eu hanafu drwy ddamwain. Mae'n rhaid bod y cyfarpar o'r math a fydd yn osgoi gofid neu anaf a chael ei ddefnyddio felly.

208. Oni bai ei fod wedi'i nodi fel arall, nid yw'r drwydded hon yn awdurdodi lladd bwriadol, cymryd nag anafu rhywogaethau a warchodir.

209. Ni fydd unrhyw weithgarwch yn cael ei gynnal o dan delerau'r drwydded hon ar Warchodfa Natur Genedlaethol neu Safle o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig heb dderbyn caniatâd ysgrifenedig ymlaen llaw gan y Swyddfa Ranbarthol CNC sy'n gyfrifol am y Warchodfa Natur Genedlaethol neu'r Safle o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig dan sylw.

210. Nid yw meddu ar y drwydded hon yn rhoi unrhyw hawliau o ran cael mynd ar dir. Mae'n rhaid cael caniatâd gan y perchennog neu'r meddiannwr er mwyn mynd ar dir neu eiddo. Ni fydd CNC yn derbyn unrhyw gyfrifoldeb am fethu neu esgeuluso'r ddyletswydd hon ar ran y trwyddedeion, a bydd yn ystyried diddymu trwyddedau ar unwaith os bydd cwynion yn cael eu derbyn gan berchnogion neu feddianwyr ar y seiliau hyn.

211. Ymhen pedair wythnos ar ôl i'r drwydded hon ddod i ben, bydd rhaid i'r trwyddedai gyflwyno manylion ynglŷn â'r gweithgareddau a gweithrediadau a gynhelir yn rhinwedd y drwydded hon ar y ffurflen adroddiad swyddogol sydd ar welfan CNC.

212. Bydd rhaid i'r trwyddedai roi gwybod i CNC ynglŷn ag unrhyw newidiadau yn ei amgylchiadau os gall y fath newidiadau ddirymu'r drwydded hon.

213. Os bydd unrhyw rywogaethau a warchodir gan Ewrop (RhWE) yn cael eu dal neu'u lladd o ganlyniad i arfer y drwydded hon, yna dylid rhoi gwybod i CNC ar unwaith.

216. Bydd rhaid i unrhyw anifail/anifeiliaid gwyllt a gymerir o dan delerau'r drwydded hon gael eu rhyddhau ar y safle lle y'u daliwyd cyn gynted â bod ei gadw'n gaeth yn peidio â bod yn angenrheidiol. Dylid trafod anifeiliaid â'r llaw er mwyn eu harchwilio ddigwydd cyn lleied â phosibl.

217. Cyflwynir y drwydded hon at ddibenion ymchwil arolwg er mwyn canfod presenoldeb rhywogaethau a warchodir. Bydd rhaid cydlynu unrhyw drawsleoliadau gyda staff rhanbarthol priodol CNC, a byddant yn ddarostyngedig i drwydded ar wahân wedi'i seilio ar ddatganiad o fethodoleg manwl.

**NODIADAU**

N2. Atgoffir y trwyddedai, mewn perthynas ag amodau sy'n ymwneud â Rhywogaethau a Warchodir yn Genedlaethol, y gall unrhyw beth a wneir nad yw'n unol â thelerau'r drwydded hon arwain at drosedd yn cael ei chyflawni o dan adrannau 1, 5, 6 (3), 7, 8, 9 (1–2), 9 (4–4A), 11 (1–2) ac 13 (1) Deddf Bywyd Gwyllt a Chefn Gwlad 1981.

N3. Ceir diwygio neu ddirymu'r drwydded hon ar unrhyw adeg gan CNC.

N4. Nid oes dim yn y drwydded hon sy'n caniatáu eithriad i unrhyw ddarpariaeth gyfreithiol a gynhwysir mewn unrhyw Ddeddf, ar wahân i'r Ddeddf/Deddfau y mae'r drwydded hon wedi'i chyflwyno o dani/danynt. Lle bo'n briodol, dylid ceisio trwyddedau gan y Swyddfa Gartref er mwyn cyflawni gofynion Deddf Anifeiliaid (Gweithdrefnau Gwyddonol) 1986.

N5. Caiff y trwyddedai fynd gyda pherchennog neu feddiannwr y tir yr arferir y drwydded hon arno. Yn y fath amgylchiadau, cyfrifoldeb y trwyddedai yw sicrhau nad oes unrhyw aflonyddwch arall yn cael ei achosi.

N7. Rydych yn cytuno i gwblhau adroddiad trwydded sy'n cynnwys manylion o'r cofnodion bioamrywiaeth gofynnol a gasglwyd mewn cysylltiad â'r drwydded hon. Mae gennym eich caniatâd i storio, copïo, defnyddio, a rhyddhau neu gyhoeddi unrhyw gofnodion bioamrywiaeth mewn cysylltiad â chyflwyno'r drwydded hon. Lle mae ein polisi ynglŷn â chael mynediad cyhoeddus at ddata yn datgan bod y wybodaeth yn sensitif, bydd cyhoeddi a mynediad yn cael eu cyfyngu yn unol â'r Rheoliadau Gwybodaeth Amgylcheddol (2004) a'n canllawiau ynglŷn â chael mynediad at ddata ar nodweddion bioamrywiaeth sensitif. Cawn ni rannu'r cofnodion bioamrywiaeth a ddaw i law â sefydliadau gwarchod a ddetholir gennym. Lle mae ein polisi ynglŷn â chael mynediad cyhoeddus at ddata yn datgan bod y wybodaeth yn sensitif, bydd rhyddhau'r fath

wybodaeth yn digwydd o dan delerau trwydded gyfyngol yn unol â'n canllawiau ynglŷn â chael mynediad at ddata sy'n ymwneud â nodweddion bioamrywiaeth sensitif. Nodwch y bydd unrhyw ffurflen adroddiad annigonol yn cael effaith andwyol ar unrhyw geisiadau am drwydded yn y dyfodol.

N8. Mae'n rhaid i gofnodion bioamrywiaeth sy’n ymwneud â chyflwyno'r drwydded hon fod mor ddibynadwy a chywir â phosibl a chael eu casglu gyda'r holl ganiatadau angenrheidiol.

N9. Rydym yn cydnabod bod cofnodion biolegol a gasglwyd mewn cysylltiad â'r drwydded hon, oni bai eu bod wedi'u casglu o dan delerau contract (gyda darpariaethau amgen ynglŷn â Hawliau Eiddo Deallusol) ar ein cyfer neu drydydd parti, yn aros yn eiddo deallusol daliwr y drwydded. Ym mhob achos, byddwn yn ceisio cydnabod eiddo deallusol a pheidio â defnyddio unrhyw gofnodion biolegol a gasglir o dan delerau trwydded tu hwnt i'r dibenion a ddatganwyd uchod.

N10. **Dylid paratoi asesiad risg bioddiogelwch er mwyn gwerthuso risgiau posibl ar bob safle, a dylid rhoi sylw i ragofalon bioddiogelwch perthnasol yn ôl y cynefinoedd a'r rhywogaethau sy’n bresennol. Dylai'r nodiadau canlynol fod o gymorth i lywio eich gweithdrefn gweithio, a gellir dod o hyd i ddolenni i wybodaeth bellach isod.**

Ar safleoedd dŵr croyw, dylid lleihau trosglwyddo afiechydon amffibiaid a physgod, yn ogystal â rhywogaethau anfrodorol goresgynnol, trwy ymgymryd â glanhau a diheintio cyfarpar. Dylid sgwrio'r holl falurion, darnau planhigion a llaid oddi ar esgidiau a'u rinsio â dŵr. Dylai'r broses ddiheintio gynnwys mwydo mewn toddiant cannydd (un mesur o gannydd cartref i naw mesur o ddŵr) am bymtheg munud, neu ddefnyddio toddiant Virkon (1mg/ml) am un munud. Gellir golchi ffabrigau ar gylchred o 40°C (â glanhedydd, gan sicrhau rinsio digonol). Dylid berwi'r rhwydau am ddeng munud, neu, os bydd y ffabrig yn caniatáu, eu diheintio â chwistrell cannydd a'u rinsio'n drylwyr. Rinsiwch nhw â dŵr glân, ac, os bydd yn bosibl, gadewch iddynt sychu cyn eu defnyddio y tro nesaf. Cadwch offer gwaith maes (e.e. trapiau, fframiau rhwydau, bwcedi) tu mewn i fagiau plastig wrth deithio a storio er mwyn lleihau'r tebygolrwydd o drosglwyddo afiechydon. Dylid gwaredu â’r holl ddiheintyddion sydd wedi'u defnyddio mewn modd priodol. Dylid arolygu/ymweld â safleoedd sy'n cael eu hystyried i fod 'wedi'u heintio' yn olaf yn ystod unrhyw raglen waith.

Er mwyn lleihau'r perygl o ledu *Phytophthora* wrth ymweld â safleoedd rhostir neu goetir, sgwriwch yr holl bridd a malurion oddi ar esgidiau gan ddefnyddio dŵr, chwistrellwch nhw â Propeller, a'u gadael nes y bydd wedi anweddu. Dylid cadw mynediad cerbydau ar hyd llwybrau i'r nifer lleiaf posibl, a dylid glanhau llaid oddi ar olwynion, bwâu olwynion, a chafnau traed ceir. Dylid ailwneud hyn ar bob safle yr ymwelir ag ef. Dylid osgoi ymweld â safleoedd rheoli afiechyd *Phytophthora* os bydd hyn yn bosibl mewn unrhyw fodd. Gellir derbyn Propeller gan Evans Chemical Supplies, 18B Barncoose Industrial Estate, Pool, Redruth, Cernyw, Ffôn 01209 213643.

Gellir dod o hyd i gyngor ynglŷn â chlefyd (*Chalara*) coed ynn ar
http://www.forestry.gov.uk/cy/forestry/infd-6abl5v/welsh

Ceir rhagor o fanylion am Phytophthora
arhttp://www.fera.defra.gov.uk/plants/plantHealth/pestsDiseases/phytophthora/
Dylai gweithwyr amffibiaid ddarllen Nodyn Cyngor 4 Grwpiau Amffibiaid ac Ymlusgiaid y DU (ARG-UK): ‘Amphibian disease precautions: a guide for UK field workers’ (http://www.arguk.org/advice-and-guidance/view-category)

Gellir cael gwybodaeth a chyngor ynglŷn â rhywogaethau anfrodorol goresgynnol ar
https://secure.fera.defra.gov.uk/nonnativespecies/home/index.cfm

# Nodiadau ar Drapio Llygon

## Cefndir

Yn ôl Deddf Bywyd Gwyllt a Chefn Gwlad 1981 (fel y'i diwygiwyd) caiff llygon (rhywogaethau *Soricidae*) o bob math eu rhestru yn Atodiad 6. O'r herwydd, mae eu dal trwy ddefnyddio ambell ddull penodol yn drosedd. Pryfysorion yw llygon, a rhaid iddynt fwyta bob 3-4 awr. Gall eu dal mewn trapiau am amser maith arwain at farwolaeth nifer helaeth ohonynt, oni bai bod rhagofalon yn cael eu cymryd.

Ym marn Cyfoeth Naturiol Cymru (CNC), er mwyn trapio llygon yn fwriadol trwy ddefnyddio **trapiau heb eu haddasu** dylid cael trwydded. Nid oes angen trwydded wrth ddefnyddio trapiau wedi'u haddasu, pan nad yw'n hi'n fwriad gennych i ddal llygon. Mae CNC yn rhoi trwyddedau at ddibenion gwyddonol ac addysgol, ac ar gyfer gwneud gwaith ymchwil neu waith cadwraeth, yn cynnwys modrwyo a marcio. Gweler yr adran 'Ceisio am trwydded" ar ein gwefan i gael y ffurflen gais berthnasol.

## Trapiau wedi'u haddasu

Os nad ydych angen dal llygon, mae modd drilio twll 13mm mewn diamedr ym mlwch nythu'r trap, er mwyn i'r llygon allu dianc. Dylid glynu wasier bres o amgylch y twll er mwyn atal cnofilod rhag cnoi ei ymyl. Dylid glynu'r wasier bres ar gorff y trap. Mae yna berygl bach y gallai anifeiliaid sy'n rhy fawr i ddianc drwy'r twll farw, ac wrth gwrs bydd modd i gnofilod bach neu ifanc, yn ogystal â llygon, ddianc.

Mewn ambell drap lle mae modd dal anifeiliaid yn fyw, gellir addasu sensitifrwydd y droedlath. Yn ymarferol, nid yw hyn yn ddigon i atal llygon rhag cael eu dal. Nid yw'n ymarferol addasu trapiau pydew. Os caiff trapiau pydew eu defnyddio i ddal llygon, dylid rhoi bwyd a gwellt gwely fel yr awgrymir isod.

## Trapiau heb eu haddasu – ffyrdd o ofalu am les llygon

Caiff trapiau sy'n dal anifeiliaid byw eu cynllunio, eu gosod a'u defnyddio er mwyn osgoi marwolaeth neu anaf. Dylid defnyddio blwch nythu gyda'r rhain a dylid rhoi gwellt gwely addas yn y nyth.

- **Sut i osod y trapiau**

Rhaid sicrahau bod trapiau yn sefydlog a fod y siambr nythu mewn trapiau Longworth ar ogwydd er mwyn atal dŵr rhag llifo i'r gwellt gwely.

- **Bwyd**

Gadewch digon o fwyd addas yn y trap. Larfâu neu chwilerod pryfed chwythu (rhywogaethau *Calliphora*) sydd orau. Defnyddiwch ddigon, gan roi 10g ymhob trap. Dylid rhoi bwyd newydd yn rheolaidd.

- **Gwellt gwely/gorchudd**

Gadewch wellt gwely sych (gwair glân yn ddelfrydol) yn y trap er mwyn ei inswleiddio. Gorchuddiwch trapiau Longworth â llystyfiant neu ddeunyddiau eraill i insiwlediddio yn erbyn tymheredd eithafion.

Dylid trapiau pydew gael ei orchuddio gyda bwrdd (mwy na diamedr y trap) wedi ei godi uwchben y ddaear ar gerrig i gadw'r glaw allan.

- **Archwilio trapiau**

Archwiliwch y trap yn rheolaidd. Os caiff digon o fwyd a gwellt gwely eu gadael, bydd archwilio'r trapiau bob 12 awr (gyda'r nos a ben bore) yn iawn.

Os nad oes modd gadael bwyd, mae'n debyg y bydd y llygon yn marw os cânt eu gadael am fwy na 3-4 awr. Mewn amgylchiadau o'r fath, rhaid archwilio'r trapiau o leiaf bob pedair awr. Cofiwch y bydd archwilio'r trapiau'n rhy aml yn amharu ar y cynefin, a gall hyn effeithio ar lwyddiant y trapio.

Os dewch ar draws llyg wedi marw, ceisiwch addasu faint o fwyd a gwellt gwely a roddwch yn y trapiau, neu ba mor aml rydych yn eu harchwilio. Os bydd y marwolaethau'n parhau er gwaethaf hyn, rhowch y gorau i drapio llygon a gofynnwch am gyngor.

Peidiwch â thrapio pan fydd y tywydd yn oer neu'n boeth iawn, neu pan fydd tywydd o'r fath yn debygol o ddigwydd.

Pan na fydd y trapiau'n cael eu defnyddio, peidiwch â gadael y drysau ar agor ac wedi'u cloi.

- **Trapiau pydew**

Wrth ddefnyddio trapiau pydew ar gyfer creaduriaid di-asgwrn-cefn, yr unig ffordd mewn gwirionedd o sicrhau na fydd llygon yn marw'n ddamweiniol yw trwy archwilio'r trapiau'n aml.

Pan na fydd trapiau pydew yn cael eu defnyddio, dylid rhoi caead ar eu pen.

**Gwybodaeth bellach:**

Llyfryn gan *The Mammal Society*, *Live Trapping Small Mammals – A Practical Guide by J Gurnell and J R Flowerdew (2006)*. Ar gael gan The Mammal Society, 18 St John's Church Road, London. E9 6EJ. Ffôn 02380 010 981, www.mammal.org. uk